20.9.'20—A plentiful supply of water for school purposes has now been obtained.

Dŵr o'r ffynnon ar gae Cwmdawe! 'Rôl iddo achosi'r holl drafferth, tynnwyd yr hen bwmp dŵr i ffwrdd. Gan fod yno dwll dwfn aruthrol gosodwyd gorchudd trwm a chryf arno er mwyn diogelu'r plant.

Dyna un broblem wedi'i threchu! Peth gwerthfawr yw dŵr. Ni wyddom ei wir werth nes inni fethu ei gael. Gosodwyd tap y tu allan i'r ysgol a digonedd o ddŵr yn llifo ohono ar ôl ei agor. Dyna beth oedd gwyrth! Bellach, nid oedd angen ynni fel o'r blaen cyn cael llwnc o ddŵr oer ar brynhawn poeth o Haf.

29.4.'21—Mr. Morgan, the County Architect, accompanied by two of the School Managers, Mr. Thomas, Maesteile and Mr. Jones, Cwmanne visited the school this morning to see what repairs are required for the School

3.6.'21—Owing to repairs being carried out in the school, the Classes are given instructions in the Chapel Vestry.

19.2.'25—Mr. Lewis, the County Architect's Assistant and Mr. Joshua Evans, Sanitary Inspector visited the school today in connection with the fixing of a folding partition and the removal of the gallery in the classroom.

20.4.'25—The folding partition was fixed up during the Easter Holidays.


Ar y dechrau, un ystafell hir oedd yr ysgol, heb unryw raniad rhwng y ddwy ystafell. Diau mai anfantais fawr oedd hynny. Mae sylw plentyn yn cael ei ddenu pan fo rhywbeth anarferol yn digwydd o'i gwmpas. Tybed a oedd gweld ei gilydd yn amharu ar gynnydd addysgol y plant?

18.6.'25—A new clock was received today from Carmarthen.

17.12.'25—On entering the playground this morning, it was noticed that a portion of the upper wall of the playground had fallen. The wall slants a little and the fall was caused, probably, by the action of frost. Children have been warned not to play too near the wall.




Y plant a'r athrawon ym 1926
(E. H. Evans, ysgolfeistr ac M. G. Davies)



Y plant a'u hathrawon

Adeiladwyd ystafell ddillad newydd yng nghefn yr ysgol. To fflat oedd i hon. Pa bensaer a feddyliodd fod to gwastad yn addas yn y wlad hon? Amser yn unig a brofai'r cynllun. Archwiliwyd ac agorwyd yr ystafell hon i'r merched ar Fawrth 3ydd, 1928.

14.9.'28—The concrete paving leading from the gate to the main entrance was completed this week.

15.1.'29—The School Garden was refenced by Mr. W. M. Jones, Cwmdawe on the 10th-13th Dec. 1928. (£2.11.3.)

15.6.'35—A 'Cooking' Stove, from Trimsaran School was delivered here on Saturday, the 11th, inst. by Mr. T. E. Evans, Coal Merchant, Llanybyther.


19.6.'35—The stove, transferred from Trimsaran School was fixed in the school today.

23.9.'35—The exterior of the school was painted during the Summer Holidays by Mr. Daniel Jones, Fron, Cwmanne. (£10.12.6.)

7.1.'36—The school reopened this morning after the Christmas Holidays. The ceilings of the Main Room and the Boys' Cloakroom were match-boarded during the holidays by Mr. John Evans, Contractor, Old Vicarage, Pencarreg.



Yr ardalwyr yn dathlu



Babanod yr ysgol gyda'r athrawon
(E. H. Evans ac E. A. Davies)



Plant yr ysgol yn dathlu

12.6.'36—Mr G. G. Quan, Sanitary Engineer, Lampeter repaired leakages in the water supply and fixed two new taps. (£1.7.5.)
(Ceid un tap yng nghae Cwmdawe—y tu allan i fur yr ysgol)



Yr ardalwyr yn dathlu



Y plant a'r athrawon

*(drwy ganiatâd caredig y Scholastic Souvenir Company, Blackpool)*



Dathlu'r Jiwbili ym 1935



Dathlu'r Jiwbili ym 1935

Aeth rhai blynyddoedd heibio oddi ar i rannau o'r mur o gwmpas yr iard syrthio. Ym 1936 adeiladwyd mur newydd o gwmpas y ffin.



Josi'r, gof lleol

12.3.'38—The railing on the entrance to the Boys' Cloakroom was fixed up today by Mr. Joshua Jones, blacksmith (£1.18.6.). (Mae'n syndod fel yr oedd crefftwyr lleol yn medru cyflawni'u gwaith mor rhad).

18.3.'41—Mr. Brunker called at school this morning to discuss about the school garden.

7.6.'44—Mid-day meals commenced today. (Gan fod nifer y plant wedi gostwng yn isel, defnyddid ystafell y Babanod fel ystafell fwyta ac ystafell wisgo'r merched at olchi'r llestri).

17.12.'47—There are leakages near the chimneys in both classrooms, causing a great deal of dampness on the inside walls. The Clerk of Works and Mr. Jones, Carpenter, Dolaugwynion examined the roof this afternoon.

30.9.'48—A new window frame has been installed in the front cloakroom and the exterior of the school was painted during the last fortnight. One new window pane has been installed.




Disgyblion ac athrawon yr ysgol ym 1940
(E. H. Evans ac M. P. Reeves)




Y plant a'r athrawes ym 1948

16.3.'49—The playground, which has been in a very poor condition for the last few years, has been repaired today.

23.6.'49—The Clerk of Works visited the school this morning and measured the boundary wall at the back of the school.

12.7.'50—Mr. Williams, Esgairgoch has started repairing the boundary wall.

19.7.'50—There has been a shortage of water here for the last few days. The pipe-track is being opened this week so as to find if there are any leakages.

4.9.'50—The interior of the school was decorated and painted during the last month, by Mr. Thomas, Frood Vale. Mr. Williams, Esgairgoch has finished repairing the boundary wall. During the holidays, too, new water pipes were installed to bring the water from the tank to the tap in the playground. There is now an abundant supply.

18.3.'52—As the flat roof of the back cloakroom (kitchen) has been leaking for the last few years it is now being provided with a slanting roof by Mr. J. Williams, Esgairgoch. (Profwyd o'r diwedd nad oedd to fflat yn gymwys).

4.7.'52—The lower part of the playground has been repaired this week.

19.11.'52—A new stove, which was delivered to school from Mr. T. M. Williams, Llandeilo was installed this morning by Mr. J. Williams, Esgairgoch.

13.1.'53—Mr. David Morgan, Clerk of Works visited the school and measured the entrance gate, which is to be widened so as to enable firewood and coal to be delivered into the playground.

26.1.'53—The water supply has been very low for the last fortnight. A leakage in the pipe was repaired today. There is now an abundant supply.

Drwy argymhelliad Miss M. M. Jenkins, un o Arolygwyr y Weinyddiaeth Addysg dechreuwyd ysgrifennu'r cofnodion yn Gymraeg o fis Chwefror, 1953 ymlaen. Dyma gam pwysig a diddorol yn hanes yr ysgol.



Y plant a'r athrawon
(M. E. George, prifathrawes ac R. C. Cooke)



Y plant a'r athrawon
(M. E. George, prifathrawes a B. Davies)

2.11.'53—Gan fod y fynedfa i'r ysgol yn rhy gul gwnaed y glwyd ddeunaw modfedd yn lletach a symudwyd y mur i gyfateb gan Mr. J. Williams.

4.12.'53—Bu Mr. Williams yma yr wythnos hon. Gosododd "Lobster Back Cowl" ar ben y ddwy simnai i alluogi'r mwg i fynd yn well.

Bu'r mwg yn poeni pawb ar hyd y blynyddoedd. Dyma feddyginiaeth o'r diwedd!

19.2.'54—Daeth dau weithiwr yma heddiw ar ran y Pwyllgor Addysg i gyweirio'r pibau dŵr. Gosodasant dap newydd y tu allan i'r ysgol hefyd.

11.11.'54—Galwodd Mr. David Morgan i weld drws y cefn. Gan fod ei waelod yn wael, bwriedir ei gyweirio.

1.12.'54—Daeth nifer o lechi i lawr o ben yr adeilad gyda'r storm yr wythnos hon. Anfonir at Reolwr yr ysgol, Mr. H. J. Hughes fel y gellir trefnu i'w gosod yn ôl.

16.12.'54—Daeth Mr. J. Williams i osod y llechi ar y toeau wedi'r storm a gafwyd yn ddiweddar.

25.4.'55—Yn ystod y gwyliau gosodwyd dŵr i mewn yn yr ystafell wisgo a chawg i'r plant ymolchi. Gosodwyd dŵr a chyfleusterau i olchi'r llestri cinio hefyd yn y gegin gan Mri. Rogers, Llandilo.

6.6.'55—Cymerwyd sampl o ddŵr oddi yma cyn y gwyliau ac wedi'i brofi gan yr Archwiliwr Iechydol gwelwyd ei fod yn hollol foddhaol.

19.1.'56—Bu Mr. David Morgan yma heddiw a bu'n edrych ar yr adeilad o'r tu allan. Bwriedir ei beintio eleni a chyweirio'r drysau.

5.3.'56—Derbyniwyd hanner tunnell o lo heddiw oddi wrth Mri. P. & D. Coop., Llanwrda, i'w ddefnyddio ynglŷn â chinio'r ysgol. Wrth ddod â'r glo i mewn torrwyd y gorchudd sydd ar y gwter y tu allan i'r adeilad. Anfonwyd gwybodaeth am hyn i'r Swyddfa.

12.3.'56—Bu Mr. D. Morgan yma'n trefnu ar gyfer gosod gorchudd newydd ar yr iard.



Y plant a'r brifathrawes



Plant yn cael mwynhad yn y dosbarth
(*drwy ganiatâd caredig y Scholastic Souvenir Company, Blackpool*)



Y plant a'r brifathrawes
(*drwy ganiatâd caredig y Scholastic Souvenir Company, Blackpool*)

26.4.'56—Bu Mr. Iorwerth Howells, Cyfarwyddwr Addysg y Sir, Mr. Douglas Hughes, Cadeirydd y Pwyllgor Addysg ac eraill yma bore heddiw i drefnu ynghylch dyfodol yr ardd sy'n perthyn i'r ysgol. Trefnwyd mai'r peth gorau i'w wneud fydd ei chynnig i Mr. W. M. Jones, Cwmdawe am rent o bunt y flwyddyn.

Mynegodd y Cyfarwyddwr Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Addysg eu hedmygedd a'u boddhad o weld yr ysgol mor lân a threfnus. Dymunasant ein llongyfarch, yn enwedig Miss M. J. Morgan a fu'n glanhau a gofalu am yr ysgol am nifer o flynyddoedd. Estynnwyd y neges galonogol i Miss Morgan.

30.4.'56—Gosodwyd gorchudd newydd yn ei le ar yr iard. Fe'i derbyniwyd oddi wrth Mri. P. &. D. Coop., Llanwrda.

3.9.'56—Paentiwyd gwaith coed allanol yr ysgol yn ystod y gwyliau gan Mr. J. R. Thomas, Crugybar.

29.4.'57—Yn ystod gwyliau'r Pasg rhoddwyd stof newydd yn yr ystafell fwyta.

2.9.'57—Bu Mr. J. Williams yn gosod gwydr newydd i ffenestr yr ystafell wisgo a bu'n plastro un o furiau'r ysgol gan fod lleithder ofnadwy yn dod drwyddi.

1.9.'58—Peintiwyd y tu mewn i'r adeilad yn ystod gwyliau'r Haf gan Mr. T. L. Thomas, Llanllwni.

18.11.'58—Bu Mr. Elfed Morgan, Trefnydd Cerdd y Sir yma heddiw yn gweld y piano.

Wrth ddarllen y cofnodion hyn, gwelir yn amlwg ddiddordeb a gofal cyson yr Awdurdodau Addysg i geisio sicrhau bod popeth yn foddhaol a hwylus i'r plant a'r athrawon. Câi datblygiad addysgol y disgyblion y sylw angenrheidiol ganddynt, yn ogystal ag amgylchedd iachus i weithio ynddo yn ystod oriau'r ysgol.

## YR ATHRAWON

Gan fod Ysgol Esgerdawe mor ddiarffordd, câi'r Bwrdd Ysgol gryn dipyn o anhawster i benodi prifathrawon. Byr iawn oedd arhosiad ambell un. Adlewyrchir hyn yn Adroddiad un o'r Arolygwyr yn y cyfnod cynnar. Dywed fod yr ysgol wedi dioddef llawer oherwydd newid mynych athrawon. 'Roedd presenoldeb y plant yn anghyson hefyd. Mewn canlyniad i'r ddau reswm hyn, 'roedd gwaith y disgyblion ychydig yn isel ei safon yn ystod y blynyddoedd hynny.

Ni chyrhaeddodd yr ysgol hon ei chanmlwyddiant oherwydd caewyd hi ar ôl cyfnod o bedwar ugain a dwy o flynyddoedd. Yn ystod yr amser hwn, bu yma o leiaf un ar bymtheg o brifathrawon sefydlog â gofal yr ysgol. Cafwyd gwasanaeth nifer o brifathrawon ansefydlog hefyd rhwng ymadawiad un a dyfodiad y llall. Eto, yn ystod yr hanner olaf yn hanes yr ysgol bu tri Phrifathro yma am flynyddoedd lawer.

Dyma enwau'r prifathrawon a'u cyfnodau:-

| | |
|---|---|
| J. Robert Airey* | 14.5.1877—5.5.'78 |
| William Jones* | 9.5.'78—30.5.'79 |
| John D. Price* | 5.6.'79—25.8.'82 |
| Michael Williams* | 25.9.'82—27.7.'83 |
| Thomas J. Rowe | 4.9.'83—28.7.'84 |
| Benjamin Williams* | 11.8.'84—29.9.'89 |
| Anne Jones* | 30.9.'89—21.2.'90 |
| Margaret E. Samuel | 19.3.'90—4.3.'91 |
| J. D. Lloyd | 10.3.'91—2.6.'91 |
| John Parry Davies | 3.6.'91—4.11.'91 |
| A. A. Jones* | 9.11.'91—7.3.'92 |
| Henry Jones | 15.3.'92—20.5.'92 |
| John Thomas (Monitor) | 23.5.'92—3.6.'92 |
| John Davies* | 6.6.'92—30.9.1903 |
| W. E. Morris* | 17.11.1903—28.2.'05 |
| F. J. Renfrey | 6.3.'05—26.5.'05 |
| D. Luther Johnson* | 29.5.'05—24.1.'07 |
| Walter L. Parry* | 3.4.'07—29.4.'07 |
| David Peters | 15.5.'07—31.5.'07 |
| John Bowen* | 4.6.'07—21.12.'10 |
| Thomas Williams* | 3.1.'11—24.12.'12 |
| Alfred J. Thomas* | 6.1.'13—30.9.'24 |
| Edward Phillips | 1.10.'24—31.10.'24 |
| Evan Henry Evans* | 3.11.'24—30.1.'42 |
| Marion P. Reeves | 2.2.'42—27.11.'42 |
| Mary Eunice George | 30.11.'42—29.12.'42 |
| Mair E. Rowlands | 4.1.43—26.5.'44 |
| Glenys Thomas* | 5.6.'44—9.5.'47 |
| M. H. Jones | 12.5.'47—30.9.'47 |
| Mary Eunice George* | 1.10.'47—23.7.'59 |

Dynoda * Brifathrawon sefydlog

Fel y crybwyllwyd eisoes penodwyd gwragedd lleol i ddysgu gwnïo i'r merched yn y blynyddoedd cynnar. Yn ystod y cyfnod rhwng dyddiad agor yr Ysgol a'r dyddiad y penodwyd yr athrawes gynorthwyol gyntaf, sef Ebrill 4ydd, 1898, bu yma dair yn dysgu gwnïo:-

| | |
|---|---|
| Miss Davies | 2.11.'77—30.10.'80 |
| Mary Morgan | 1881—1893 |
| Mary Jones | 1893—1898 |

Pe digwyddai athrawes wnïo gael ei tharo'n sâl, ceid gwasanaeth dynes gyfrifol arall yn ei lle. 'Roedd dysgu gwniadwaith mor bwysig yr adeg honno.

Oherwydd nifer y plant ni fedrai prifathro gyflawni'r gwaith o'u dysgu heb gymorth. Bu'r ysgol ar agor am fwy nag ugain mlynedd cyn penodi'r athrawes gynorthwyol gyntaf. Felly, yr unig gymorth a gâi'r Prifathro oedd gwasanaeth Monitor neu athro dan hyfforddiant. Fel y gwelir yn y Llyfr Cofnodion cyntaf, dyma enwau'r rhai a fu'n cyflawni'r gwaith hwn:

David Lewis o Ysgol Coedmor a benodwyd ar Fai 28ain, 1877.

William Morgans o'r pumed dosbarth—Gorffennaf 22ain, 1879.

Thomas Jones i ddysgu'r Babanod—Awst 18fed, 1879.

Hannah Evans a benodwyd ar Dachwedd 25ain, 1879.

David Jones—Monitor ym 1888.

Elizabeth George—Penodwyd hi i gyflawni gwaith monitor ar Fedi 28ain, 1894.

Yn Adroddiad yr Arolygwr am 1895-6 dywedir bod y Babanod yn cael eu dysgu'n gymeradwy iawn. Yna, wedi sylweddoli bod gan Elizabeth gymwysterau arbennig i ddysgu plant penodwyd hi'n athrawes gynorthwyol. Dechreuodd ar ei gwaith ar Ebrill 4ydd, 1898 a hi oedd y gyntaf i lanw'r swydd hon yn Ysgol Esgerdawe. Bu yno am ddeunaw mlynedd. Diddorol yw cofnodi ei bod

yn fodryb i mi, y Brifathrawes olaf a oedd yna pan gaewyd yr ysgol ym 1959.

Dyma enwau rhai athrawon cynorthwyol a'u cyfnodau—rhai'n sefydlog, eraill dros dro:

| | |
|---|---|
| Elizabeth George | 4.4.1898—11.8.1916 |
| Margaret Anne Parry | 6.11.1916—31.3.'21 |
| L. Jane Davies | 4.4.'21—28.9.'23 |
| Hannah Jane Griffiths | 1.10.'23—19.10.'23 |
| Mary Gwen Davies | 22.10.'23—30.4.'28 |
| Elizabeth Anne Davies | 1.5.'28—13.3.'33 |
| Margaret Wibe | 14.3.'33—28.4.'33 |
| Marion P. Reeves | 1.5.'33—27.11.'42 |

Erbyn dechrau 1942 'roedd nifer y plant wedi gostwng i'r fath raddau fel yr aeth yn ysgol un-athro. Dim ond un ar ddeg o blant a fynychai'r ysgol ym Mawrth 1942 a bu'r nifer yn isel iawn hyd Fai 1953. Erbyn hynny, 'roedd pymtheg o enwau ar y Gofrestr. Felly, gwelodd y Pwyllgor Addysg fod angen cymorth ar y brifathrawes.

Wele enwau'r rhai a fu'n cynorthwyo yn y cyfnod hwnnw:

| | |
|---|---|
| Mona Lloyd | 15.6.'53—31.8.'53 |
| Rosser C. Cooke | 1.9.'53—29.1.'54 |
| D. E. J. Davies | 30.1.'54—13.4.'54 |
| R. J. C. Phillips | 3.5.'54—14.6.'54 |
| Bryan Davies | 24.6.'54—17.5.'55 |
| B. D. Morgan | 6.6.'55—22.7.'55 |
| Gwennie M. Jones | 1.9.'55—21.12.'55 |
| L. J. Davies | 9.1.'56—31.3.'56 |

Ym mis Mawrth 1956 gostyngodd nifer y plant eto ac aeth yn ysgol un-athro. Erbyn mis Medi y flwyddyn honno dim ond deg oedd ar y llyfrau. Lleihau a wnâi'r rhif o hyd ac erbyn Mehefin 1959 dim ond pump a ddeuai yno i'w haddysgu. Yn wyneb hyn, cafwyd y wers olaf yn yr hen ysgol ar Orffennaf 23ain, 1959.

Mae'r Llyfrau Log i gyd ar gael a phleser yw darllen cofnodion

y rhan fwyaf o'r prifathrawon. Syndod a boddhad yw canfod eu gwaith destlus a chryno, hyd yn oed dros ganrif yn ôl.

Wedi cyfeirio at y rhai a fu'n llafurio yn yr ysgol annwyl hon, teimla llawer ohonom ein bod yn ddyledus iawn iddynt. Treuliasant eu hamser a'u hegni i drosglwyddo gwybodaeth i blant pob cyfnod. Gwnaethant eu gorau glas i'n rhoi ar ben y ffordd. Melys yw'r atgofion am y dyddiau dedwydd gynt!

## ATGOFION D. DERWENYDD MORGAN AM YSGOLFEISTRI CYNTAF ESGERDAWE

(Codwyd o'i gyfrol *Trem yn ôl neu Oes Gofion,* Gwasg Gomer, Llandysul, 1940).

'Yr oeddwn yn hogyn saith oed pan agorwyd y Bwrdd Ysgol cyntaf yn yr hen ardal. Yr unig ysgol a gafodd nhad oedd ysgol fach a gedwid mewn Festri Capel gan hen Soldiwr a gollasai ei fraich, druan, yn y rhyfel.

Clywais nhad yn dweud y buasai'n dda ganddo pe bai y sgwlin heb yr un fraich, oherwydd yr oedd yn curo'n ddi-drugaredd yn fynych â'r fraich oedd ganddo. Ond chwarae teg, bu yr ysgol honno, a degau o'i thebyg yn gymorth i gario y byd ymlaen at gyfundrefn addysg well. Cofiaf yn dda y bore cyntaf yr euthum i'r Ysgol. Sais rhonc o berfedd Lloegr oedd yr Athro. Ni wyddai fwy o Gymraeg na gafr am y Greek Alphabet. Ni fedrem ni blant gwledig, anllythrennog ddeall yr un gair ohono. Nid wyf am feio'r dyn. Bwriad y Bwrdd ysgol oedd hyn, er mwyn dysgu Saesneg i'r plant, ac wrth gwrs lladd, neu alltudio'r iaith Gymraeg, yn ben a chynffon, os medrent. Rhyfedd y ffwlbri a'r diffyg gwladgarwch, onide? Mr. Robert Airey oedd enw y sgwlin newydd. Yn wir Airey ydoedd. Beth bynnag, yr oedd yn fwy awyrol na daearol, cyn belled ag oedd a fynno â ni y plant. Chwarae teg iddo, yr oedd o ysbryd caruaidd bob amser. Yr

oedd yna dafarn bach ryw ddwy filltir o'r ysgol a elwid Tafarn Jem. Ambell noson pan fyddai arian yn ei logell, elai i'r tafarn, a byddai'n feddw chwîl ymhen ychydig o amser. Delai gartref rywbryd cyn y bore, ac yn ddi-eithriad, byddai yna grasfa yn ei aros gan Mrs Airey, oherwydd yr oedd hi, mae'n debyg, yn ddiarhebol am ei thymer wyllt. Drannoeth yn yr Ysgol byddai yr hwyl ddim yn dda. 'Roedd y llogell yn wag, y pen yn sâl, a rhannau o'r corff yn ddolurus, fel effaith "pugilistic power" Mrs Airey, a chlywem ni, y plant, fawr o ddim ganddo ond ambell ochenaid ddofn, ac ambell "Dear me" wrtho ei hunan. Yr oedd yn ddyn diddorol, pe medrem ei ddeall. Yr oedd yn hoff o ddweud ystorïau wrthym ni y plant, a'r ystorïau, y rhan amlaf, am ryw wrhydri oedd ef ei hun wedi ei wneuthur yn ei oes. Byddem ni y plant, er yn deall fawr, yn clapio'n fyddarol, ac yn gweiddi "Hear", "Hear", gyda phob stori, ac yr oedd yn ymddangos wrth ei fodd, wrth dderbyn uchel gymeradwyaeth y dorf, er nad oedd y dorf ond dyrnaid o blant anllythrennog.

Pan ddaeth ei flwyddyn i ben, cymerodd Mr. Airey ei adanedd, ac aeth yn ôl i'w wlad ei hun, a bu y Bwrdd Addysg, chwarae teg iddynt, yn ddigon call i beidio penodi Sais unieithog, i ddysgu plant y Cymry, mewn ardal wledig, ar ôl hynny.

Daeth yn ei le, ddyn bychan o Ogledd Cymru. Yr oedd hwn yn garuaidd iawn i'r plant. Yr oedd yn siarad iaith y gogledd yn gryf, ac yr oedd yn bur anodd i'w ddeall. Yr oedd yn siarad yn ddi-dor o flaen y dosbarth, ac yn byrlymu geiriau allan fel trochion sebon. Yr oedd ychydig yn drwm ei glyw, ac yr oedd ganddo yn wastad wlân yn ei glustiau, ac weithiau byddai gwlân yn hongian allan bob ochr i'w gernau, fel dau gydyn gafr. Ni wn faint a ddysgwyd dan ei ofal ef, ond yr wyf yn cofio yn dda un peth arbennig yn ei hanes ef a'r Ysgol. Prynodd ddeurodyn newydd, sef beisicl mawr. Yr oedd y beisicl yn beth dieithr i ardal wledig yr adeg honno. Un o'r beisiclau mawr, hen ffasiwn oedd hwn. Yr oedd yr olwyn flaen yn ddifrifol o uchel a'r olwyn ôl yn fechan, llai o lawer nag olwyn whilber. Rhwng yr olwyn fawr

ymlaen a'r olwyn fach yn ôl, yr oedd yn disgwyl yn debyg i ryw gaseg hela fawr, ac ebol bach wrth ei chynffon. Un diwrnod, ar ôl i'r meistr orffen ei ginio, a ninnau i fwyta ein tocynnau sychion, gwelem y beisicl mawr yn dod allan, er mwyn i Mishtir gael dysgu marchogaeth. Bu yno'r helynt a'r ffair rhyfeddaf. Rhyw hanner dwsin o blant yn dal y beisicl mawr, a hanner dwsin arall yn helpu'r Meistr ar ei gefn, oherwydd yr oedd yn anferth o uchel, a'r *Jockey* fel Saccheus gynt dipyn yn fychan o gorffolaeth. Heblaw hyn, ni wn ai effaith gweithio yn y Chwarel yn ifanc ai nage, ond yr oedd cymalau Meistr cyn stiffed â physt llidiart a'i frest yn gyfyng, a'i nerfau yn yfflon mân ar adegau. Beth bynnag, cafwyd y *Jockey* i'r lan yn iawn, a dyma fe yn gweiddi "Push" ac wedyn "Let go". Dyma fe ffwrdd, a'r 'pedlo' rhyfeddaf. Ond 'toc' dyma fe i'r ffos. Y beisicl mawr fel rhyw filwr clwyfedig yn ochr y berth a Mistir wedi disgyn ar ei ben rhyw dair llath ymlaen. Gorweddai y Meistr ar lawr wedi colli pob ymwybyddiaeth. Ni wyddem beth i'w wneuthur. Yr oeddem oll wedi cael braw, canys credasom ei fod wedi ei ladd. Ond meddai Dai Shanko, yr hynaf, ac wrth gwrs y callaf ohonom, "Yr oedd mam," ebai Dai, "yn dweyd mai y peth gore i gael dyn o'r ffit yw taflu bwcedaid o ddŵr drosto." Dyma Dai a hogyn arall yn rhedeg i mofyn y dŵr, ond cyn iddo dderbyn o'r bedydd dŵr daeth Meistr ato ei hun. Ni chlybuwyd sôn am y beisicl mawr wedyn am rai diwrnodau, ond rhyw hanner dydd braf dyma fe allan eto. Wedi mynd drwy yr oruchwyliaeth arferol i gael cychwyn yn iawn a Dai Shanko yn gweiddi "Hewl," dyma Meistr i ffwrdd fel mellten. Yr oedd yn gyrru fel Jehu y tro hwn, ond wele, ryw hwch fagu yn dod allan o'r cae, methodd y meistr stopio, dyma fe ar draws yr hwch, a'r peth cyntaf a welsom ni oedd y beisicl mawr hanner y ffordd drwy y berth, a Meistr a'i faglau yn yr awyr, a'i ben ar dorr yr hwch, a honno yn cicio ac yn 'sparlingo' dano, a'i lleisiau cynddrwg, 'rwy'n sicr, â lleisiau moch Gadara pan yn cael eu marchogaeth gan y cythreuliaid i'r môr. Y tro hwn, ni chafodd yr un loes, oherwydd yr oedd yr hwch yn digwydd bod yn weddol esmwyth.

Cafodd y beisicl mawr lonydd am gryn dipyn wedyn; ond un hanner dydd, dyma fe allan eto, ac yr oedd y Meistr "yn penderfynu meistroli y gelfyddyd o farchogaeth y tro hwn", meddai fo. Wel, fe ddechreuwyd yn dda y tro hwn. Yr oeddem ni y plant yn deall y "Push" a'r "Let go" erbyn hyn i'r tic, ac yr oedd Dai Shanko yn gallu gweiddi "Hewl" nes oedd yr ardal yn disapedain. Dyma fe i ffwrdd fel cath o dân, ond deallasom yn o fuan fod yna rywbeth o le, a bod Meistr wedi colli pob llywodraeth ar y beisicl mawr. Toc, dyna'r olwyn ôl i fyny i'r awyr, a dyma Meistr yn cael ei daflu i ben llwyn o ddrain, a chwarae teg iddo, er bod y drain yn pigo, ni ddefnyddiodd e iaith nad oedd weddus i blant ei chlywed. "Dewch chwi," ebai Dai Shanko wrth ei helpu allan o'r drain, "cofiwch am amynedd Job, Syr." "Cer o'na bachan," ebai yntau, "cafodd Job erioed ei daflu i ben llwyn o ddrain wrth farchogaeth y beisicl mawr." Ar ben blwyddyn aeth yntau i ffwrdd, ac yr oedd llawer deigryn ar ruddiau y plant, wrth ei weled, un bore yn mynd, efe a'i focs dillad a'i feisicl mawr.

Bu y Bwrdd yn ffodus am athrawon ar ôl hyn. Cafwyd bechgyn gwych, nid yn unig yr oeddent yn athrawon da ond yr oeddent yn gaffaeliad mawr i ardal wledig, drwy wneuthur eu hunain yn ddefnyddiol mewn byd ac eglwys. Yr oeddynt yn Gymry da, ond yn rhyfedd iawn nid oedd caniatâd iddynt yr adeg honno i siarad gair o Gymraeg tu fewn i furiau'r Ysgol. Yr oedd yr iaith Gymraeg—iaith gyfoethocaf y byd—fel rhyw ysgymunbeth yn ein plith.